# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 4 MEDI 2024

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 4 Medi 2024

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Allan Marshall, Hilary McGuill, Ted Palmer a Mike Peers

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Paul Cunningham, Rob Davies, Gladys Healey

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi),
Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth Gynllunio, Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu,
Uwch Swyddogion Cynllunio, Arweinydd Tîm - Rheoli Datblygiad Priffyrdd
Cyfreithiwr a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 14. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell gysylltiad personol ag eitem rhif 6.3 ar y rhaglen, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref yr Wyddgrug.

## 15. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod ac a atodwyd i'r eitem ar y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s83359/Late%20Obs%20-%204th%20Sept%202024.pdf?LLL=0

## 16. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Chris Bithell a Paul Johnson eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

**17. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Ni argymhellwyd gohirio unrhyw eitem.

**18. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**19. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd tri o aelodau'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2.41pm)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy fynd i'r llyfrgell weddarllediadau yn: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 4 MEDI 2024**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| OUT/000470/23 – RMH | Cyngor Tref y Fflint | Cais amlinellol - codi hyd at 17 o anheddau gyda gwaith cysylltiedig yn Tan y Bryn, Ffordd Bryn, Y Fflint. | Siaradodd Pete Lloyd (Asiant) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Vic Davies (Preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad ar ran y Cynghorydd Michelle Perfect yn erbyn y cais. | Cymeradwywyd yn unol ag Argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ac yn y Sylwadau Hwyr. |
| FUL/000337/24 – RMH | Cyngor Tref Shotton | Cais llawn - Newid defnydd 13 Rowden Street, Shotton, Glannau Dyfrdwy i fod yn Dŷ Amlfeddiannaeth 5 ystafell wely i 6 person | Darllenwyd datganiad ar ran y Cynghorydd Sean Bibby yn erbyn y cais. | Gwrthodwyd yn groes i Argymhelliad y Swyddog am y rheswm canlynol:<br><br>Mae gorddatblygu a thoreth o Dai Amlfeddiannaeth ar Rowden Street ac yn y cyffiniau wedi arwain at effaith niweidiol ar amodau byw eiddo preswyl cyfagos. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/000451/24 – SC | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Amrywio/Diddymu Amod - Cais i amrywio amod rhif 10 sydd ynghlwm â Chaniatâd Cynllunio: FUL/000498/22 yn KFC, Ffordd Caer, Yr Wyddgrug | Darllenodd y Cynghorydd Sarah Taylor ddatganiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug yn erbyn y cais. | Gwrthodwyd yn groes i Argymhelliad y Swyddog am y rheswm canlynol:<br><br>Effaith niweidiol ar amodau byw eiddo preswyl cyfagos. |